# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# CYNGOR CYMUNED BUAN 2022 / 2023

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Buan sy'n cofnodi'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2022 / 2023. Bwriad yr adroddiad yw rhoi crynodeb o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal.

Rhai o gyfrifodebau'r Cyngor yw:-

- Gosod y praesept a ddosberthir i'r Cyngor bob blwyddyn;
- Trafod ceisiadau cynllunio o fewn y gymuned a cyflwyno'r penderfyniadau i Bwyllgor Cynllunio Gwynedd;
- Hysbysu adrannau perthnasol Cyngor Gwynedd am gyflwr ffyrdd a.y.b.
- Cynnal a chadw - Mynwent Llanfihangel; Cae pentref Rhydyclafdy a Mynwent Boduan; - gwahoddir prisiau / tendr gan gontractwyr;
- Cyfrannu at geisiadau am arian oddi wrth fudiadau / elusennau a.y.b.;

**Gwybodaeth am y Cyngor**

Cymuned fechan ar Benrhyn Llŷn yw Buan yn cynnwys pentref Rhydyclafdy ac ardaloedd Boduan a Cheidio.

Mae 3 ward yn y gymuned a 10 cynghorydd wedi eu hethol fel a ganlyn:-

- **Ward Bachellaeth**

Cynghorwyr Hughie Williams, Rhys Jones, Catherine Hughes, Einir Lewis a Tesni Wyn Jones

- **Ward Boduan**

Cynghorwyr Gareth Roberts, Philip Roberts a Dafydd Ll. Williams.

- **Ward Ceidio**

Cynghorwyr Wynne Davies a Nia Jones.

**Cynghorydd Sirol** – Mrs. Anwen Davies

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai gyda'r Cynhorydd Hughie Williams wedi ei ail ethol yn Gadeirydd am y flwyddyn 2022 / 2023 a'r Cynghorydd Rhys Jones eto wedi ei ail ethol yn Is-gadeirydd.

**Staff**

Un aelod o staff sydd gan y Cyngor, sef Nerys Williams, sy'n Glerc a Swyddog Ariannol. Mae'n gweithio'n rhan amser. Gellir cysylltu â hi drwy e-bost clercbuan@outlook.com neu drwy lythyr i Tanrallt, Llaniestyn, Pwllheli, LL53 8SH, neu ffôn ar 01758 730715.

**Cyfarfodydd**

Cynhelir y cyfarfodydd ar yr ail nos Iau o bob mis yn nhafarn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 p.m. Y Gymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor.

Cafwyd 10 cyfarfod yn ystod y flwyddyn, - 9 ohonynt wedi eu cynnal yn Tu Hwnt i'r Afon ac un yn Talybont, Rhydyclafdy - trwy garedigrwydd y Cynghorydd Catherine Hughes. Nid oedd digon o aelodau yn bresennol ar gyfer cyfarfod Rhagfyr, 2022 felly ni thrafodwyd unrhyw fater. Diolch i bawb a fynychodd ac am wneud eu gorau dros y gymuned. Mae pob un o'r cynghorwyr yn gwneud eu gwaith yn ddi-dâl ac yn ffyddlon iawn i'r cyfarfodydd. Ni chynhelir cyfarfod ym mis Awst.

**Gwefan**

Mae gwybodaeth am y Cyngor Cymuned gan gynnwys Rhaglenni Cyfarfodydd, Cofnodion a.y.b. i'w gweld ar y safle we sef www.buan.org

**Aelodaeth Allanol**

Mae'r Cyngor yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff ar gyfer cynghorau cymuned.

**Cyllid a gwariant**

Penderfynwyd gadael y praesept yn union yr un fath â'r llynedd sef £3750.00.

Bydd y Clerc yn anfon copi o gyfrifon y banc yn fisol i'r Cynghorwyr ac fe fydd dau gynghorydd yn arwyddo sieciau ar ddiwedd bob cyfarfod.

Prif ffynhonell incwm y Cyngor yw'r praesept ynghyd â chyfraniad gwerthfawr gan Lightsource (Fferm Solar) a Lord Newborough.

Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y Cyngor 13 Gorffennaf, 2023.